DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000
CRONFA LOTERI FAWR
CYNLLUN CYHOEDDI

CYNNWYS

RHAN I:
YNGL□N Â'R CYNLLUN CYHOEDDI HWN

1	Cyflwyniad	2
2	Cynllun Cyhoeddi - Cyflwyniad	2
3	Cynllun Cyhoeddi – Sut i'w ddefnyddio	3
4	Cadw Dogfennau	4
5	Gwybodaeth na chynhwysir yn y Cynllun Cyhoeddi hwn	4
6	Newidiadau i'r Cynllun Cyhoeddi	4
7	Comisiynydd Gwybodaeth	5
8	Hawlfraint	5
9	Adborth a chwynion	6

RHAN II: CRONFA LOTERI FAWR – DOSBARTHIADAU GWYBODAETH 7

RHAN I: YNGL□N Â'R CYNLLUN CYHOEDDI HWN

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cronfa Loteri Fawr yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol sydd wedi ei awdurdodi i ddyfarnu grantiau o arian Loteri drwy ddosbarthu arian i grwpiau gwirfoddol, cymunedol a grwpiau eraill cymwys drwy'r Deyrnas Gyfunol ac i asiantaethau yn y DG sy'n gweithio dramor. Noddir y Gronfa gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ond mae ganddi gyfrifoldebau ledled y DG.

1.2 Yn Rhagfyr 2006 ffurfiwyd Cronfa Loteri Fawr fel endid cyfreithiol drwy uniad ffurfiol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (a fu'n dosbarthu grantiau dan yr enw 'Y Gronfa Gymunedol') a Cronfa Cyfleoedd Newydd. Daeth y ddau sefydliad at ei gilydd am y tro cyntaf gyda'r uniad gweinyddol ym Mehefin 2004.

1.3 Ein deddfwriaeth lywodraethol yw Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb. 1993: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1993/Ukpga_19930039_en_1.htm

Diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980022.htm

a Deddf y Loteri Genedlaethol 2006: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/20060023.htm

1.4 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG) yn rhoi hawl cyffredinol i gael mynediad at bob math o wybodaeth gofnodedig a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, yn nodi eithriadau i'r hawl hwn, ac yn gosod nifer o rwymedigaethau ar gyrff cyhoeddus. Diffinnir 'awdurdod cyhoeddus' yn y Ddeddf, ac mae'n cynnwys llywodraeth ganolog a lleol, cyrff cyhoeddus anadrannol, yr heddlu, y gwasanaeth iechyd ac ysgolion, colegau a phrifysgolion.

2. CYNLLUN CYHOEDDI: CYFLWYNIAD

2.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Cynllun Cyhoeddi Cronfa Loteri Fawr. Gofynnir i bob awdurdod cyhoeddus (a restrir yn Atodiad 1 o'r Ddeddf) lunio Cynllun Cyhoeddi yn unol ag Adran 19 o'r ddeddfwriaeth. Pwrpas y cynllun hwn yw nodi dosbarthiadau o wybodaeth sydd (neu a fydd) yn cael eu cyhoeddi ac felly ar gael i'r cyhoedd.

2.2 Mae'r Cynllun ar gael i'w weld ar http://www.cronfaloterifawr.org.uk ynghyd ag amrywiaeth eang o wybodaeth yngl□n â gweithgareddau CLF. Mae'r Cynllun hefyd ar gael am ddim drwy ffonio Robert Holland, ein Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol ar 020 7211 3736 neu drwy e-bostio mailto:foi@biglotteryfund.org.uk. Gallwch hefyd wneud cais am y cynllun drwy ysgrifennu at:

Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
Cronfa Loteri Fawr
1 Plough Place
Llundain EC4A 1DE

2.3 Mae CLF yn gorff ar gyfer y Deyrnas Gyfunol yn gyfan ac felly mae'r Cynllun Cyhoeddi yn berthnasol i'w holl weithgareddau ym mhob gweinyddiaeth (h.y. Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon).

3. CYNLLUN CYHOEDDI: SUT I'W DDEFNYDDIO

3.1 Mae'r dosbarthiadau o wybodaeth yr ydym yn bwriadu eu cyhoeddi wedi eu crynhoi, fesul pwnc, dan destunau cyffredinol; mae'r testunau yn disgrifio'r math o wybodaeth y gallwch ddisgwyl ei weld yn y Cynllun Cyhoeddi. O fewn pob testun cyffredinol mae dosbarthiadau amlwg o wybodaeth y mae'r Gronfa yn eu cyhoeddi neu yn bwriadu eu cyhoeddi.

3.2 Rydym wedi grwpio dosbarthiadau gwybodaeth yn y cynllun hwn dan y testunau cyffredinol canlynol:

1. Gwybodaeth gyffredinol
2. Cynlluniau a strategaethau
3. Adroddiadau a chyfrifon
4. Gwasanaeth cwsmer, cyfleoedd cyfartal, a chwynion
5. Mynediad at Wybodaeth
6. Datganiadau i'r Wasg a brandio
7. Rhaglenni Grant
8. Ymgynghori a gwerthuso
9. Bwrdd a phenderfyniadau
10. Canllawiau a gweithdrefnau mewnol

3.3 Dan bob dosbarth yn y Cynllun Cyhoeddi gellir gweld:

- Disgrifiad bras o'r wybodaeth
- Sut y bydd y wybodaeth ar gael
- Manylion unrhyw dâl am wybodaeth

3.4 Mae'r wybodaeth a gyhoeddir drwy'r Cynllun ar gael naill ai o'n gwefan neu drwy e-bost neu'r post. Dylid cyfeirio ceisiadau am wybodaeth at y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (gweler rhan 2.2)

3.5 Bydd ceisiadau am wybodaeth yn ein Cynllun drwy'r post neu e-bost yn cael ei anfon atoch o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad y derbyniwyd eich cais. Os na fydd hyn yn bosibl am unrhyw reswm, byddwn yn cysylltu â chi o fewn y cyfnod hwn i esbonio pam.

3.6 Os fydd unrhyw dâl yn ddyledus, bydd y manylion yn cael eu cynnwys yn y cynllun a bydd rhaid talu o flaen llaw. Ni fydd unrhyw gostau cudd, ond os byddwch yn gofyn am gopïau ychwanegol efallai y byddwn yn codi tâl am

lungopïo a phostio. Byddwn yn eich hysbysu ynglŷn â hyn wrth dderbyn eich cais am wybodaeth.

3.7 Bydd Cronfa Loteri Fawr yn ymateb â chydymdeimlad i geisiadau am wybodaeth mewn unrhyw ffurf arall, e.e. casét sain.

4. CADW DOGFENNAU

4.1 Mae ein polisi ar gadw gwybodaeth yn ein meddiant yn cael ei osod yn ein amserlenni cadw a reolir gan ein cyfrifoldebau dan Ddeddfau Cofnodion Cyhoeddus 1958 ac 1967 a deddfwriaeth arall. Gall rhai dogfennau gael eu cadw yn yr Archifau Cenedlaethol i'w cadw'n barhaol.

5. GWYBODAETH NA CHYNHWYSIR YN EIN CYNLLUN CYHOEDDI

5.1 Nod Cynlluniau Cyhoeddi yw annog awdurdodau cyhoeddus i fod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod gwybodaeth yn eu meddiant ar gael yn rhwydd, ac i ddatblygu diwylliant o fod yn agored ac eglur.

5.2 Dan Adran 52 o'r Ddeddf, gall y Comisiynydd Gwybodaeth weithredu yn erbyn awdurdod cyhoeddus am fethu, ymysg pethau eraill, cydymffurfio â gofynion y Ddeddf parthed Cynlluniau Cyhoeddi.

5.3 Mae gan aelodau o'r cyhoedd bellach yr hawl dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i wneud cais penodol am wybodaeth ynglŷn â'r cyrff cyhoeddus a gynhwysir gan y Ddeddf. Gellir gwneud cais felly am unrhyw wybodaeth sydd heb ei gynnwys yn y Cynllun Cyhoeddi, ar yr amod fod y cais yn ysgrifenedig ac yn cynnwys enw a chyfeiriad dychwelyd.

5.4 Os nad yw'r wybodaeth yr ydych ei eisiau yn y Cynllun Cyhoeddi nac ar gael ar y wefan, dylech ysgrifennu, gan gyfeirio at y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, at y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (manylion cyswllt rhan 2.2)

5.5 Bydd gwybodaeth yn cael ei ryddhau o fewn 20 diwrnod gwaith oni bai fod eithriad yn berthnasol. Mae eithriadau yn cynnwys gwybodaeth am unigolion a gwybodaeth fasnachol sensitif.

6. NEWIDIADAU I'R CYNLLUN CYHOEDDI

6.1 Bydd Cronfa Loteri Fawr yn diweddaru'r Cynlluniau o bryd i'w gilydd, ac rydym yn ymrwymo i adolygu cynnwys y Cynllun bob blwyddyn. Yn benodol, mae'n debygol y bydd mwy o wybodaeth ar gael yn electronig fel y bydd gwefan y Gronfa yn cael ei ehangu.

6.2 Cyfarwyddwr Polisi a Phartneriaeth Cronfa Loteri Fawr, Gerald Oppenheim sydd â'r cyfrifoldeb ar lefel uwch am ein Cynllun Cyhoeddi.

6.3 Y person sydd yn gyfrifol am gynnal y Cynllun Cyhoeddi o ddydd i ddydd yw Robert Holland, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (gweler 2.2 am fanylion cyswllt).

7. COMISIYNYDD GWYBODAETH

7.1 Y Comisiynydd Gwybodaeth sydd â'r cyfrifoldeb dros weithredu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a'i rôl yw:

- Hybu arferion da
- Cymeradwyo a chynorthwyo i baratoi Cynlluniau Cyhoeddi
- Darparu gwybodaeth am hawliau'r cyhoedd dan y Ddeddf, a hefyd
- gorfodi cydymffurfiaeth gyda'r Ddeddf

7.2 Ceir mwy o wybodaeth am swyddogaeth y Comisiynydd Gwybodaeth ar www.informationcommissioner.gov.uk. Gellir hefyd cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Llinell wybodaeth: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

8. HAWLFRAINT

8.1 Mae hawlfraint y deunydd a geir drwy'r Cynllun Cyhoeddi yn eiddo Cronfa Loteri Fawr, oni nodir yn wahanol. Ni fydd cyflenwi dogfennau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl i'r unigolyn neu sefydliad a'u derbyniodd eu hail-ddefnyddio mewn modd fyddai'n torri amodau'r hawlfraint, e.e. drwy wneud copïau lluosog, cyhoeddi a dosbarthu copïau i'r cyhoedd.

8.2 Gellir atgynhyrchu detholiadau byrion o'r deunydd yn unol â darpariaethau delio teg y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 (adrannau 29 a 30) ar gyfer ymchwil at ddibennon anfasnachol, astudiaeth breifat, beirniadaeth, adolygiad neu adrodd newyddion, ar yr amod eu bod yn cael eu hatgynhyrchu'n gywir ac na fyddant yn cael eu defnyddio mewn modd camarweiniol. Pan fyddwch yn ail-ddefnyddio'r deunydd, dylid cydnabod y ffynhonnell a hefyd gydnabod y statws hawlfraint. Os fydd gennych unrhyw amheuaeth, dylid cysylltu â ni am fwy o fanylion.

8.3 Fodd bynnag, nid yw'r hawl hwn i atgynhyrchu deunydd yn cael ei estyn i unrhyw ddeunydd a geir drwy'r Cynllun Cyhoeddi lle nad yw'r hawlfraint yn eiddo i Cronfa Loteri Fawr, ond yn eiddo i drydydd parti. Rhaid i chi sicrhau caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i atgynhyrchu deunydd o'r fath.

9. ADBORTH A CHWYNION

9.1 Rydym yn croesawu adborth ar ein Cynllun Cyhoeddi, a byddwn yn ystyried sylwadau wrth adolygu a datblygu'r Cynllun. Yn ogystal, fe fyddwn yn defnyddio ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbynnir i lunio Cynlluniau Cyhoeddi yn y dyfodol.

9.2 Anfonwch eich sylwadau at y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (gweler 2.2 ar gyfer manylion cyswllt)

9.3 Os ydych yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'n Cynllun Cyhoeddi, neu gyda'r modd yr ydym wedi ymdrin ag unrhyw gais am wybodaeth, dylech ddilyn ein trefn gwyno. Esbonnir y drefn mewn taflen o'r enw 'gwneud cwyn' sydd ar gael drwy'r Cynllun Cyhoeddi.

RHAN II: CRONFA LOTERI FAWR – DOSBARTHIADAU GWYBODAETH

1. Gwybodaeth Gyffredinol

1.1 Taflen gyffredinol

Disgrifiad Amlinellu'r amryw ffynonellau nawdd Loteri a ble i gael mwy o wybodaeth. Fersiynau ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

1.2 Datganiadau i'r Wasg

Disgrifiad Datganiadau i'r wasg ar amryw faterion

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

1.3 Grantiau a gymeradwywyd

Disgrifiad Rhestr o grantiau a gymeradwywyd gan y Bwrdd

Ar gael Ar y wefan

Cost Am ddim

1.4 Cyngor brandio

Disgrifiad Canllawiau brandio ar gyfer prosiectau a ariannir

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

1.5 Taflenni rhaglenni

Disgrifiad Manylion rhaglenni unigol a gynigir gan Cronfa Loteri Fawr.

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

1.6 Cylchgronau Cronfa Loteri Fawr

Disgrifiad Cylchgronau yn cynnwys y newyddion diweddaraf am Cronfa Loteri Fawr, megis 'newyddmawr' sydd â fersiynau ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ar gael Drwy'r post ac ar y wefan

Cost Am ddim

2. Cynlluniau a Strategaethau

2.1 Gweledigaeth a gwerthoedd

Disgrifiad Datganiad o weledigaeth a gwerthoedd Cronfa Loteri Fawr ar gyfer ei fusnes. Fersiynau ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

2.2 Cynllun Corfforaethol

Disgrifiad Datganiad o weledigaeth a gwerthoedd Cronfa Loteri Fawr ar gyfer ei fusnes.

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

3. Adroddiadau a chyfrifon

3.1 Adroddiadau a chyfrifon blynyddol

Disgrifiad Adroddiad statudol o weithgareddau a chyfrifon blynyddol

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim (codir tâl am Gopi Caled)

3.2 Adolygiad Blynyddol

Disgrifiad Adolygiad o weithgareddau dros y cyfnod diwethaf

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

4. Gwasanaeth cwsmer, cwynion a chydraddoldeb

4.1 Trefn gwyno

Disgrifiad Taflen yn nodi trefn gwyno Cronfa Loteri Fawr

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

4.2 Siarter gwasanaeth cwsmer

Disgrifiad Safonau gwasanaeth cwsmer ar draws y dosbarthwyr

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

4.3 Canlyniadau arolwg boddhad cwsmeriaid

Disgrifiad Adroddiad am ganlyniadau arolwg cwsmeriaid a gynhelir o bryd i'w gilydd.

Ar gael Drwy'r post

Cost Am ddim

4.4 Siarter Gwasanaeth Cwsmer

Disgrifiad Safonau gwasanaeth cwsmer ar draws y dosbarthwyr

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

4.5 Cydraddoldeb

Disgrifiad Prif Egwyddorion Cydraddoldeb

Ar gael Drwy'r post neu'r wefan

Cost Am ddim

4.6 Cynllun Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon

Disgrifiad Cynllun wedi'i gymeradwyo i gydymffurfio ag Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

4.7 Adroddiad Cynnydd Blynyddol Adran 75

Disgrifiad Adroddiad blynyddol ar Adran 75 i'r Comisiwn Cydraddoldeb

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

4.8 Cynllun Iaith Gymraeg

Disgrifiad Datganiad i gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

5. Mynediad at wybodaeth

5.1 Polisi Mynediad at Wybodaeth

Disgrifiad Arweiniad am fynediad at wybodaeth Cronfa Loteri Fawr

Ar gael Drwy'r post neu ar y wefan

Cost Am ddim

6. Datganiadau i'r Wasg a Brandio

6.1 Datganiadau i'r Wasg

Disgrifiad Datganiadau i'r Wasg ar amryw faterion

Ar gael Ar y wefan

Cost Am ddim

6.2 Cyngor Brandio

Disgrifiad Canllawiau brandio ar gyfer prosiectau a ariannir

Ar gael Ar y wefan

Cost Am ddim

7. Rhaglenni Grant

7.1 Arweiniad a ffurflenni cais

Disgrifiad Arweiniad ar raglenni a ffurflenni cais

Ar gael Drwy'r post ac ar y wefan

Cost Am ddim

7.2 Manylion dyfarniadau

Disgrifiad Crynodeb o'r holl grantiau a ddyfarnwyd

Ar gael Ar y wefan

Cost Am ddim

8. Ymgynghori a Gwerthuso

8.1 Gwerthuso ac Ymchwil

Disgrifiad Adroddiadau ar ganlyniadau'r amrywiol weithiau ymchwil ac astudiaethau gwerthuso rhaglenni a ymgymerwyd

Ar gael Ar y wefan

Cost Am ddim

9. Y Bwrdd a phenderfyniadau

9.1 Llawlyfr y Bwrdd

Disgrifiad Llawlyfr a roddir i aelodau'r Bwrdd yn disgrifio côd ymddygiad, gorchmynion sefydlog a threfniadau ad-dalu.

Ar gael Drwy'r post

Cost Am ddim

9.2 Cylch gorchwyl pwyllgorau

Disgrifiad Cylch gorchwyl y Bwrdd a'i bwyllgorau

Ar gael Drwy'r post

Cost Am ddim

9.3 Cofnodion y Bwrdd

Disgrifiad Cofnodion y Bwrdd

Ar gael Ar y wefan ddeufis wedi'r cyfarfod pwyllgor perthnasol

Cost Am ddim

10. Canllawiau a gweithdrefnau mewnol

10.1 Polisïau Adnoddau Dynol

Disgrifiad Amrywiol bolisïau yn ymwneud â rheolaeth staff Cronfa Loteri Fawr.

Ar gael Ar gais

Cost Am ddim

10.2 Polisi Iechyd a Diogelwch

Disgrifiad Polisi Iechyd a Diogelwch Cronfa Loteri Fawr

Ar gael Drwy'r post

Cost Am ddim

10.3 Polisi ac amserlenni cadw cofnodion

Disgrifiad Polisi cadw cofnodion ac amserlenni cadw ar gyfer Cronfa Loteri Fawr

Ar gael Drwy'r post

Cost Am ddim